Eiddo/LIM/4808

# AR OSOD TRWY DENDR

## Caffi Storiel, Ffordd Gwynedd, Bangor, LL57 1DT
## Hydref - 2025






Nid yw'r ddogfen yma yn ffurfio rhan o gynnig nac o unrhyw gontract. Bras fesurau yn unig a roddir yma. Dylai pob darpar denant fodloni eu hunain ynglŷn â'r mesuriadau a'r ffeithiau uchod. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn yr uchaf nac unrhyw gynnig.

**CYFLWYNIAD**

Gwahoddir cynigion tendr am denantiaeth Caffi yn adeilad Storiel, Bangor, Ffordd Gwynedd, LL57 1DT.

**LLEOLIAD**

Mae'r eiddo wedi ei leoli yn adeilad amgueddfa Storiel rhwng adeiladau Prif Adeilad y Celfyddydau a Pontio Prifysgol Bangor a chanol dinas Bangor, gan fod o fewn pellter cerdded i'r ddwy ran o'r ddinas. Mae'r adeilad yn hynafol ond wedi ei adnewyddu i safon uchel, ac yn cynnwys amgueddfa, siop, toiledau, ystafell ddigwyddiadau a swyddfeydd, gyda maes parcio, lawnt a pharc yn gyfleus tu allan. Gellir adnabod y safle gydag ymyl coch a gwyrdd ar y cynllun atodedig.

Mae modd i'r cyhoedd logi ystafelloedd o fewn yr adeilad a byddai'r landlord yn cyfeirio unrhyw gais am luniaeth o fewn yr ystafelloedd hyn at y tenant llwyddiannus yn y man cyntaf.

**DISGRIFIAD**

Mae'r caffi yn mesur oddeutu 58m² ac yn ystafell agored, olau gyda nenfwd uchel gyda nodweddion addurniadol, ffenestri mawr, a chyda'r holl waliau a nenfwd wedi eu plastro a'u paentio. Caiff yr ystafell ei rhannu yn ddwy gan gownter gweini, gyda rhan y gegin yn cynnwys llawr gwrth-slip, cownter dur di-staen, sinc, a'r offer wedi eu rhestru isod sydd wedi derbyn profion PAT:

- Sterileiddiwr Gwydrau
- Peiriant Coffi
- Peiriant dŵr poeth
- 3 oergell
- Rhewgell
- Cownter oeri
- Meicrodon
- Popty tatws trwy eu crwyn

Mae rhan y caffi yn cynnwys lloriau pren, cypyrddau gyda llestri ynddynt, a dodrefn caffi yn gymysg o fyrddau, cadeiriau, soffas a meinciau.

Byddai modd i denant ychwanegu unrhyw offer ychwanegol y dymunent, a byddai Storiel yn agored i gael sgwrs am newid y dodrefn presennol.

Daw'r denantiaeth gyda defnydd o ardal allanol ychwanegol yn mesur oddeutu 76m² wedi ei amgylchynu mewn gwyrdd ar y cynllun safle, sy'n dir wedi ei darmacio wedi ei amgylchynu a llwyni a ffens helyg i'w breifateiddio oddi wrth y lawnt y gellir ei ddefnyddio fel ardal eistedd allanol i'r caffi.

**PRYDLES**

Mae'r eiddo ar gael ar Denantiaeth Busnes am gyfnod o dair blynedd gan ddechrau ar ddyddiad i'w gytuno rhwng y partïon. Bydd unrhyw gytundeb newydd neu estyniad i'w gytuno rhwng y ddau barti.

Nid yw'r ddogfen yma yn ffurfio rhan o gynnig nac o unrhyw gontract. Bras fesurau yn unig a roddir yma. Dylai pob darpar denant fodloni eu hunain ynglŷn â'r mesuriadau a'r ffeithiau uchod. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn yr uchaf nac unrhyw gynnig.

**RHENT**

Dylid cyflwyno cynigion tendro ar sail taliadau rhent blynyddol (Taliad Blwyddyn 1, Taliad Blwyddyn 2, Taliad Blwyddyn 3, ac ati).
Bydd y tenant yn cael ei anfonebu ymlaen llaw bob chwarter.
Bydd y ddau chwarter cyntaf am ddim gyda'r taliad chwarterol cyntaf yn daladwy ar ddechrau'r trydydd chwarter.

**TRETH AR WERTH**

**Ni** ddylai'r cynnig gynnwys Treth Ar Werth. Bydd y tenant yn gyfrifol am dalu ac adennill unrhyw dreth y mae'r tenant yn atebol amdano.

**DEFNYDD**

Gweithredu caffi o fewn adeilad Storiel yn ystod oriau agor yr adeilad yn unig (9-5 dydd Mawrth i Sadwrn), gydag unrhyw oriau ychwanegol i'w cytuno gyda'r landlord yn dilyn 6 mis cyntaf y denantiaeth.

**GLANHAU, ATGYWEIRIO A CHYNNAL A CHADW**

Bydd y tenant yn gwbl gyfrifol am lanhau, atgyweirio a chynnal a chadw'r eiddo, yn cynnwys y rhan allanol.

**YSWIRIANT**

Bydd y tenant yn gwbl gyfrifol am sicrhau bod ganddyn nhw'r polisïau yswiriant canlynol a darparu copïau i'r landlord:

- Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gydag indemniad i Gyngor Gwynedd mewn perthynas â hawliau trydydd parti am ddifrod neu golled achoswyd o ganlyniad i gamau gweithredu neu esgeulustod y tenant gydag isafswm gwerth polisi o £10,000,000.
- Yswiriant sy'n bodloni Deddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 neu unrhyw orchymyn statudol arall a wneir o dan y Ddeddf honno, unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad ohoni.

**GWASANAETHAU**

Bydd cyflenwad dŵr a thrydan ar gael a bydd y tenant yn cael eu hanfonebu gan y landlord am 5% o holl gostau'r adeilad am y gwasanaethau hyn. Mae'r tenant yn gyfrifol am drefnu unrhyw wasanaethau eraill ar eu cost eu hunain a chyda caniatâd y landlord.

**TRETHI**

Y tenant fydd yn gyfrifol am drethi annomestig. Dylid cyfeirio pob ymholiad trethi annomestig i Uned Trethi Annomestig Cyngor Gwynedd ar 01766 771 000 neu at trethiannomestig@gwynedd.llyw.cymru.

Nid yw'r ddogfen yma yn ffurfio rhan o gynnig nac o unrhyw gontract. Bras fesurau yn unig a roddir yma. Dylai pob darpar denant fodloni eu hunain ynglŷn â'r mesuriadau a'r ffeithiau uchod. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn yr uchaf nac unrhyw gynnig.

## COSTAU CYFREITHIOL

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrannu hyd at £1,030 tuag at gostau cyfreithiol Cyngor Gwynedd.

## POLISI IAITH

Rhaid i'r holl ddeunydd ysgrifenedig, gan gynnwys arwyddion, gael eu harddangos yn Gymraeg a Saesneg ar gost y tenant, gyda'r Gymraeg i'w harddangos yn gyntaf.

## TELERAU ERAILL

Cyfeiriwch at y prif ben telerau dros y dudalen am y telerau fydd yn cael eu cynnig i'r ymgeisydd llwyddiannus. Dylai'r ymgeisydd fodloni eu hunain o'r goblygiadau ac ystyried ceisio am gyngor proffesiynol priodol.

## CANLLAWIAU GWNEUD CAIS

Ni dderbynnir unrhyw dendrau oni bai eu bod yn cael eu cyflwyno yn y modd cywir fel y manylir isod.

**Rhaid** i bob cais gynnwys y dogfennau canlynol:

- Ffurflen gais tendr wedi'i llenwi
- Cynllun busnes sylfaenol
- Bwydlen enghreifftiol

Asesir y cynllun busnes a'r bwydlenni ar y sail canlynol:

| | |
|---|---|
| Gweledigaeth a sut y bwriedir cynnig y gwasanaeth | 25 |
| Manylion cynnyrch lleol a bwyta'n iach | 15 |
| Profiad Blaenorol a staff y bwriedir eu cyflogi | 15 |
| Strwythur staffio a chynllun parhad gwasanaeth | 15 |
| Bwydlen y bwriedir ei ddarparu gan gynnwys prisiau | 15 |
| Naws am le a defnydd o'r Gymraeg | 15 |
| **Cyfanswm** | **100** |

**Rhaid** cyflwyno pob cais mewn amlen wedi ei selio gan ddefnyddio'r label cyfeiriad tendro priodol er mwyn sicrhau na fydd unrhyw geisiadau'n cael eu hagor cyn y dyddiad cau. Rhaid peidio â marcio'r amlen mewn unrhyw ffordd i newid ei ymddangosiad. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd dalu am unrhyw gost postio.

Mae'r ffurflen gais dendro a'r label cyfeiriad tendro priodol ar gael yn y paced neu ar gais gan Uned Stadau Cyngor Gwynedd.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw yr 20fed o Hydref, 2025. Dylech anfon neges trwy e-bost i stadau@gwynedd.llyw.cymru i roi gwybod i ni eich bod wedi cyflwyno cais – dylech ond ein hysbysu eich bod wedi cyflwyno cais ac **ni ddylech** ddatguddio manylion eich cynnig.

Nid yw'r ddogfen yma yn ffurfio rhan o gynnig nac o unrhyw gontract. Bras fesurau yn unig a roddir yma. Dylai pob darpar denant fodloni eu hunain ynglŷn â'r mesuriadau a'r ffeithiau uchod. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn yr uchaf nac unrhyw gynnig.

**CYFLAWNDER Y TENDR**
Dylai pob ymgeisydd ymweld â'r eiddo, a'i archwilio cyn tendro, er mwyn bodloni eu hunain ynglŷn â holl amodau a chyfyngiadau lleol sy'n effeithio ar y contract. Ni chaniateir unrhyw hawliad a fyddai'n dilyn o beidio â gwneud hyn.

**GWRTHODIR YMRWYMIAD**


Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y tendr uchaf nac unrhyw dendr, ac nid oes gan yr ymgeisydd yr hawl i ofyn am unrhyw dreuliau neu gostau mae'r tendrwr yn caffael wrth baratoi'r tendr.

**YMHOLIADAU AC YMWELIADAU**

Am ymholiadau pellach, cysylltwch â'r Uned Stadau ar 01766 771 000 neu at stadau@gwynedd.llyw.cymru.

Nid yw'r ddogfen yma yn ffurfio rhan o gynnig nac o unrhyw gontract. Bras fesurau yn unig a roddir yma. Dylai pob darpar denant fodloni eu hunain ynglŷn â'r mesuriadau a'r ffeithiau uchod. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn yr uchaf nac unrhyw gynnig.


**CYNLLUN SAFLE**




| | | |
|---|---|---|
| Cynllun: Plan: | **Storiel, Ffordd Gwynedd, Bangor** | Graddfa / Scale @ A4: 1:1,000 |
| © Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 – Cyngor Gwynedd | | Dyddiad: Date: 20/08/2025 |

Nid yw'r ddogfen yma yn ffurfio rhan o gynnig nac o unrhyw gontract. Bras fesurau yn unig a roddir yma. Dylai pob darpar denant fodloni eu hunain ynglŷn â'r mesuriadau a'r ffeithiau uchod. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn yr uchaf nac unrhyw gynnig.

**CYNLLUN LLAWR**




Nid yw'r ddogfen yma yn ffurfio rhan o gynnig nac o unrhyw gontract. Bras fesurau yn unig a roddir yma. Dylai pob darpar denant fodloni eu hunain ynglŷn â'r mesuriadau a'r ffeithiau uchod. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn yr uchaf nac unrhyw gynnig.